



Adroddiad Blynyddol 2018/19

Cyng. Eirwyn Williams

Annibynnol

Ward Criccieth



Pwrpas yr adroddiad yw i gynorthwyo etholwyr i wybod mwy am waith a gweithgareddau eu haelodau etholedig yn ystod y flwyddyn

[Gweler y ddolen](#) i wefan y Cyngor am fanylion cyfrifoldebau, pwyllgorau a chyrrff allanol rwy'n eu gwasanaethu, ynghyd a chofnod o bresenoldeb

Prif Weithgareddau Etholaethol a Chymunedol

- Aelod o'r Cyngor Tref, yn gweithio ar y Cynllun Cymunedol, ble mae pob math o ddigwyddiadau wedi eu creu
- Gwaith ar Gyfraniad Criccieth i'r Rhyfel Byd Cyntaf
- Cymryd trosolwg o'r gwaith ar gynnal a chadw yr Ardd Wyllt, gan fod grŵp o bobl ifanc brwdfrydig wedi cymryd drosodd y gwaith hwn erbyn hyn. Mae hwn yn brosiect pwysig sydd yn tynnu pobl at ei gilydd
- Rhan o'r drafodaeth gyda CCG am eu bwriad i adeiladu tai cymunedol, sydd erbyn hyn yn gartrefi. Mae y gwaith tirlunio eisoes wedi ei gwblhau
- Aelod o Gorff Llywodraethwyr Ysgol Trefertyr, Criccieth - gyda rôl flaenllaw yn y trafodaethau am y datblygiadau sydd ar y gweill am Ysgol Newydd yn y Dref

Cyfarfodydd, Seminarau a Hyfforddiant y bu i mi eu mynychu

- Mynychu cyfarfodydd o Bwyllgor Hafod y Gest (Dalgyllch Porthmadog), er bod y prif waith wedi gorffen erbyn hyn
- Mynychu cyfarfodydd o Bwyllgor Iaith y Cyngor

Y Pwyllgor Cynllunio - 2018/19	01/04/2019
Gofal Cymdeithasol Oedolion - Ymchwil Recriwtio a Chadw Staff Gofal Cartref	28/09/2018
Y Pwyllgor Cynllunio - 2017 (Apeliadau Cynllunio)	27/07/2018